

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2021

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 14 RHAGFYR 2021** am **10.00 am TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021 (copi ynghlwm).

### 5 CYMERADWYO CAIS CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH DYFFRYN CLWYD (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi ynghlwm) yn ceisio awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion a enwir a'r Arweinydd i gytuno i gyflwyno cais i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd.

**6 ASESIAID O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR SIR DDINBYCH 2021** (Tudalennau 29 - 114)

Ystyried adroddiad (**sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol**) gan y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Diogelach a Cham-drin Domestig (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Asesiad drafft Llety Sipsiwn a Theithwyr 2021 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**7 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032** (Tudalennau 115 - 152)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**8 SAFON OFYNNOL ARFAETHEDIG AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD A PHROSIECTAU ADEILADU ESTYNIAD / AILWAMPIO MAWR CYNGOR SIR DDINBYCH SY'N CYNWYS TARGEDAU AR GYFER CARBON MEWN DEFNYDD AC WEDI'I YMGORFFORI** (Tudalennau 153 - 190)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu a gweithredu safon adeiladu CSDd ar gyfer gwaith adeiladu newydd a phrosiectau adeiladu estyniad mawr /ailwampio i ddiwallu targedau carbon mewn defnydd ac wedi'u hymgorffori.

**9 SEFYDLU CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 191 - 206)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi ynghlwm) ar y trefniadau sydd angen eu gwneud ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru (CJC) a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi cymeradwyaeth mewn egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CJC drwy gytundeb dirprwyo.

**10 AILDDATBLYGU HEN LYFRGELL PRESTATYN - DYFARNU CONTRACT** (Tudalennau 207 - 226)

Ystyried adroddiad ar y cyd (**sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol**) gan y Cynghorwyr Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract ar gyfer ailddatblygu hen safle Llyfrgell Prestatyn.

**11 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 227 - 246)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 247 - 252)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Huw Hilditch-Roberts  
Richard Mainon**

**Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Brian Jones  
Mark Young**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned